**Llythyr at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd**

22/05/23

Annwyl Llyr,

**Blaenoriaethau Climate Cymru ar gyfer syniadau blaenrhaglen gwaith y pwyllgor**

Mae Climate Cymru yn glymblaid o dros 300 o sefydliadau a 14,000 o unigolion sy’n cydweithio er mwyn atal newid hinsawdd. Lansiwyd ymgyrch lwyddiannus gennym gyda galwad i ddod â 13,000 o leisiau i COP26 yn Glasgow, a pharhau i weithio gydag eraill i helpu i wneud newid cynaliadwy, hirdymor yng Nghymru. Gwnawn hyn drwy ymgyrchoedd fel ein gweithred Cynnes Gaeaf Yma sy’n canolbwyntio ar ryng-gysylltu costau byw, yr argyfwng ynni a’r argyfwng hinsawdd, trwodd i’n gwaith ar Natur Bositif a phontio i Net Sero, i’n Taith Werdd ar hyd a lled Cymru bob blwyddyn, gan arddangos y gwaith anhygoel y mae pobl yn ei wneud yn eu cymunedau wrth redeg prosiectau ynni adnewyddadwy a chynlluniau effeithlonrwydd ynni.

Fel y Pwyllgor sydd â Newid Hinsawdd a Seilwaith wrth wraidd popeth a wnewch, rydym yn gwerthfawrogi eich bod wedi ceisio blaenoriaethu eich rhaglen waith ac addasu i newid pan fydd deddfwriaeth y Llywodraeth yn eich cyrraedd. Rydym yn croesawu’r cyfle i gydweithio â chi, a byddem yn fwy na pharod i ddod i roi tystiolaeth, eich gwahodd i ymweld â rhai o brosiectau ein partneriaid ledled Cymru, neu eich cynorthwyo â gwaith polisi parhaus.

**Ymgyrch Cynnes Gaeaf Yma**

Rydym yng nghanol argyfyngau niferus – yr argyfwng costau byw, yr argyfwng ynni, a’r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae'r argyfyngau hyn yn gysylltiedig ac yn cydblethu. Maent yn rhannu achosion ac atebion. Mae angen cymorth brys ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed. Y tu hwnt i hynny, mae’r atebion gorau ar gyfer llwybr gwirioneddol allan o’r argyfwng costau byw hefyd yn gamau allweddol er mwyn mynd i’r afael â sicrwydd ynni a’r argyfwng hinsawdd – megis effeithlonrwydd ynni ar raddfa gyflym a chyflwyno ynni cymunedol ledled Cymru. Mae'r achos ariannol ar gyfer y rhaglenni hyn hefyd yn gymhellol.

Oni bai ein bod yn cymryd camau brys a gwybodus yn awr, mae atebion tymor byr neu ffug mewn perygl o'n cloi i mewn i effeithiau gwaethygu newid yn yr hinsawdd ac argyfyngau ynni yn y dyfodol.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i weithredu ar frys i sicrhau bod atebion i fynd i’r afael â’r argyfwng costau byw hefyd yn mynd i’r afael â’r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae liferi sydd o fewn rheolaeth ddatganoledig angen eu defnyddio i gefnogi cartrefi bregus, ac i flaenoriaethu ynni adnewyddadwy a chynlluniau effeithlonrwydd ynni.

Hoffai ymgyrch Cynnes Gaeaf Yma yng Nghymru i Lywodraeth Cymru gyflawni'r canlynol, ac mae gennym ddeiseb agored ar hyn o bryd ar y mater hwn:

1. Cefnogaeth frys at aelwydydd bregus
2. Rhaglen effeithlonrwydd ynni uchelgeisiol
3. Cynnydd cyflym mewn ynni adnewyddadwy cost isel
4. Rhyddid rhag tanwydd ffosil

Byddem yn gwerthfawrogi pe gallai'r Pwyllgor ganolbwyntio rhywfaint o'i waith ar y themâu uchod. Rydym wedi anfon papur briffio manwl i bob Aelod Seneddol ar y testun ac mae digwyddiad gennym yn Nhy Hywel ar y 6ed o Fehefin er mwyn i ASau arwyddo addewid Cynnes Gaeaf Yma Cymru. Rydym yn aros am raglen Cartrefi Clyd newydd a diweddar i lywio gwaith ar effeithlonrwydd ynni yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn dymuno i'r pwyllgor ystyried gwneud darn o waith ar y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2022 i lansio datblygwr ynni adnewyddadwy sy'n eiddo cyhoeddus. Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi dweud y bydd elw ynni a grëir yng Nghymru yn sicrhau mwy o fanteision i bobl Cymru, ac y bydd yr arian dros ben a gynhyrchir drwy'r datblygwr newydd yn mynd yn ôl i'r pwrs cyhoeddus i'w ail-fuddsoddi mewn gwella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi yng Nghymru a chreu swyddi o ansawdd da, a chartrefi gyda gwell effeithlonrwydd ynni. Fodd bynnag, ers ei gyhoeddiad, ychydig iawn o fanylion cyhoeddus sydd am y datblygiad o dan sylw. Ochr yn ochr â'r sefydliad Cwmpas, rydym wedi ysgrifennu at y Gweinidog Newid Hinsawdd i drafod sut y gellir ei siapio. Er i ni gael ymgysylltiad cadarnhaol gyda gweision sifil, rydym yn dymuno i'r pwyllgor hwn ymchwilio i'r mater yn fanylach mewn perthynas â chymryd tystiolaeth gan cymdeithas sifil i ddeall yr hyn y mae pobl Cymru am ei weld yn digwydd yn hyn o beth, a'i gymharu ag enghreifftiau rhyngwladol lle mae'r Llywodraeth yn rhedeg eu system ynni eu hunain. Sut mae'r cwmni ynni yn buddio'r economi yn eu gwledydd priodol? Sut y gallwn sicrhau ein bod yn ei roi ar waith yng Nghymru ar ôl dysgu o arfer gorau mewn mannau eraill?

**Natur Bositif**

Mae angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau brys i sicrhau ein bod yn trosglwyddo Cymru Natur Bositif i genedlaethau'r dyfodol. Natur yw ein system cynnal bywyd ac mae'n hanfodol i les pawb yng Nghymru. Ac eto, Cymru yw un o'r gwledydd sydd wedi'i disbyddu fwyaf o ran natur yn y byd ar hyn o bryd, ac mae ein bywyd gwyllt yn dirywio'n ddifrifol gydag un o bob chwech o'n rhywogaethau mewn perygl o ddiflannu o Gymru.

Gosododd COP15 genhadaeth newydd i atal a gwrthdroi colled byd natur erbyn 2030 a chyflawni adferiad fel bod byd natur yn ffynnu unwaith eto erbyn 2050. Dyma beth mae Natur Bositif yn ei olygu, a rhaid i Gymru chwarae ei rhan ei hun i gyrraedd y nod Natur Bositif. Mae targedau byd-eang yn y gorffennol wedi methu oherwydd na chymerodd Llywodraethau nhw ddigon o ddifrif gartref; gyda natur mewn argyfwng, rydym wedi rhedeg allan o amser oherwydd oedi ac ni allwn fforddio methu eto. Mae gadael yr UE wedi gadael bwlch llywodraethu amgylcheddol sylweddol, a ni yw'r wlad olaf yn y DU i fynd i'r afael â'r bwlch hwn yn ystyrlon – rydym ar ei hôl hi, ymhell ar ei hôl hi. Mae Bil Diogelu'r Amgylchedd newydd wedi'i addo "ar y cyfle cyntaf" a'i wthio'n ôl flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Er mwyn cynnal enw da Cymru fel arweinydd amgylcheddol mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno Bil newydd yn y rhaglen ddeddfwriaethol nesaf (2023-24), i osod dyletswydd yn y gyfraith i gyflawni Cymru Natur Bositif, wedi'i hategu gan dargedau adfer byd natur sy'n rhwymol yn gyfreithiol ac yn gadarn, llywodraethu amgylcheddol annibynnol.

Byddem yn croesawu unrhyw waith y byddai'r Pwyllgor yn ei ystyried yn addas i'w wneud ar y mater pwysig hwn.

**Trosglwyddiad gyfiawn at Net Zero**

Fel rhwydwaith rydym yn dymuno cefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud ar bontio i swyddi gwyrdd ar gyfer y dyfodol yng Nghymru, ac rydym yn awyddus i ni wneud hyn wrth ddeall yr heriau sy'n wynebu'r rhai mewn swyddi o fewn diwydiannau y mae'n rhaid eu trawsnewid. Mae syniadau a meddyliau diwydiant ynghylch sgiliau yn allweddol, yn ogystal â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Gymwysterau Cymru ar y mater ar hyn o bryd.

Mae llawer o'n partneriaid yn gweithio yn y maes hwn eisoes, ac mae ganddynt gyfoeth o brofiad ac arbenigedd i'w rannu. Tua'r nod hwn, rydym wedi cynnal bwrdd crwn o'r enw 'Swyddi Gwyrdd Da i Bawb. Cyrraedd yno gyda'n gilydd' ym mis Chwefror i geisio mynd i'r afael â rhai o'r heriau, a mynd i'r afael â'n nodau cyffredin. Roedd dros 70 o bobl wedi mynychu, ac roeddem wedi rhoi darn o waith gerbron Llywodraeth Cymru ar ei gwaith yn y maes yma.

Dymunwn sicrhau ein bod yn ystyried y darlun cyfiawnder byd-eang, yn enwedig wrth edrych ar ddiwydiannau sydd â phresenoldeb byd-eang neu gadwyni cyflenwi. Mae'n bwysig bod Cymru yn ystyried beth gallwn gneud fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang, a sefyll mewn undod â chymunedau y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio fwyaf arnynt. Mae cysylltiad agos rhwng yr effeithiau newid yn yr hinsawdd a welwn yma yng Nghymru ac effeithiau o gwmpas y byd. Mae angen i ni ddeall ein heffaith fyd-eang yn well a mynd i'r afael â'r materion systemig sydd wrth wraidd anghyfiawnder hinsawdd – gan arwain at effeithiau gwaethaf y newid yn yr hinsawdd yn cael eu teimlo gan bobl sy'n byw yn y cymunedau tlotaf yma yng Nghymru ac yn fyd-eang, yn enwedig menywod a merched a'r rhai sy'n dod o gymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig.

**Ras at Sero**

Mae Climate Cymru wedi bod yn annog Cynghorau Cymru i ymuno â Ras at Sero erbyn COP28. Rydym wedi ymgynghori â mwy na 300 o Bartneriaid Climate Cymru, a chyda'u cymeradwyaeth nhw byddwn yn cyflwyno Ymgyrch Cymru gyfan o'r Ras i Sero gan adeiladu undod rhwng cynghorau a'r cyhoedd. Mae awdurdodau lleol Cymru yn gweithio'n galed iawn i dorri allyriadau yn eu gweithrediadau eu hunain er mwyn bodloni ymrwymiad Net Sero y Sector Cyhoeddus – mae hyn yn waith pwysig. Ond mae ganddyn nhw hefyd rôl fwy hanfodol i'w chwarae mewn datgarboneiddio. Dim ond cynghorau lleol sydd mewn sefyllfa i arwain y gwaith o ddatblygu cynlluniau lleihau

allyriadau systematig wedi’u teilwra i anghenion lleol, ac i gydgysylltu’r ymdrechion sydd eu hangen i gyflawni camau gweithredu.

Nawr mae angen iddynt arwain datgarboneiddio ar sail Cytundeb Paris ar draws eu hardaloedd lleol. Mae deg o'r 22 awdurdod unedol yn y broses o ymuno drwy Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Ym mis Ebrill llynedd, ymunodd dros 100 o swyddogion hinsawdd â chyfarfod dwy awr a gynhaliwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'w cyflwyno i Ras at Sero.

Mae Ras at Sero yn bwysig i gymdeithas sifil yng Nghymru oherwydd ei fod yn fframwaith glir ar gyfer gweithredu dros yr hinsawdd sy’n cyflwyno eglurder, trylwyredd, cysondeb a thryloywder, ac oherwydd ei fod wedi’i gynllunio i hwyluso cyfranogiad cymunedol wrth lunio dyfodol ein cymunedau carbon isel. Mae cyfoeth o egni, syniadau ac ymdrech wedi ei dan-ddefnyddion gan gymunedau ledled Cymru oherwydd yr ymagwedd anghyson ac afloyw tuag at ddatgarboneiddio ar sail ardal gan gynghorau.

## Meysydd eraill o ddiddordeb

### Bioamrywiaeth

Fel y soniwyd eisoes, mae gan Gymru lawer o ymrwymiadau cynlluniedig ar natur, diogelu’r amgylchedd a thargedau sy’n gweithio ochr yn ochr â fframweithiau carbon a hinsawdd sy’n bodoli eisoes. Rydym yn meddwl ei bod yn bwysig iawn bod hyn yn cael ei wneud yn gyflym, ac fel blaenoriaeth uwch o fewn amserlenni deddfwriaethol Llywodraeth Cymru; mae wedi bod yn siomedig gweld Bil Diogelu’r Amgylchedd yn cael ei wthio i lawr y ffordd, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Byddem yn annog y Pwyllgor i barhau i wthio ar graffu gan Weinidogion o ran gweithredu a monitro’r targedau a’r addewidion hyn. Byddem yn annog y Pwyllgor i barhau i wthio sgriwtini Gweinidogol dros weithredu a monitro’r targedau a’r addewidion hyn, gan gofio mai cyfrifoldeb trawsadrannol yw hwn (nid yr Adran Newid Hinsawdd yn unig). Byddem hefyd yn dymuno dweud bod angen i bob aelod o’r Senedd sicrhau bod natur a hinsawdd yn rhedeg drwy eu holl waith.

Rydym yn wynebu difodiant rhywogaethau; rydym wedi gweld tanau gwyllt, llifogydd ac effeithiau dramatig ar gnydau, peillwyr a gweithrediad ecosystemau naturiol. Ochr yn ochr â Chyswllt Amgylchedd Cymru (WEL), rydym am weld byd natur wrth wraidd yr holl waith rheoli tir, yn enwedig o ran gwario arian cyhoeddus ar roi cymhorthdal i reoli tir.

Mae’r Gwasanaeth Natur Cenedlaethol yn bolisi arall sy’n cael ei esgeuluso ac sy’n hwyr, wedi’i osod o fewn y Tasglu Adfer Gwyrdd, ac rydym yn annog y Pwyllgor i fynd ar ei drywydd ar frys gyda Gweinidogion. Gallai hwn fod yn brosiect creu swyddi enfawr yn y sgiliau arbenigol sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol ar gyfer y genhedlaeth nesaf, yn ogystal â bod yn ymateb priodol i argyfwng byd natur. Mae cyllid priodol ar gyfer atebion sy'n seiliedig ar natur a fframwaith llywodraethu cadarn i gyd yn hanfodol i ffyniant natur. Yn rhy aml, gwelwn gynlluniau a thargedau heb unrhyw adnoddau yn cael eu rhoi y tu ôl iddynt.

**Materion o bryder nad ydynt wedi eu datganoli**

**Ystad y Goron**

Rydym wedi ysgrifennu at bwyllgor Economi y Senedd yn ddiweddar i ofyn iddynt gwneud darn o waith ar yr uchod, ond mewn llythyr atom ar y 22 o Fai, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n well gofyn i'ch pwyllgor chi ar y mater o dan sylw. Dymunwn, fellly, ichi gynnal ymchwiliad i'r posibilrwydd o ddatganoli Ystad y Goron i Gymru. Yn ddiweddar, cadarnhaodd yr Ystad chwe cytundeb ynni gwynt alltraeth newydd, gwerth tua £1 biliwn. Mae Ceidwad y Cyfrin Bwrs wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog a'r Canghellor i rannu dymuniad y Brenin i'r arian hwn gael ei gyfeirio er budd ehangach y cyhoedd, yn hytrach nag at y Grant Sofran, trwy ostyngiad priodol yng nghyfran Ystâd y Goron sy'n ariannu'r Grant. Bydd un o'r 6 phrosiect wedi'i leoli oddi ar arfordir Gogledd Cymru, ac mae'n gyfle i wynt ar y môr gefnogi a helpu i dyfu economi Cymru. Mae rheolaeth ar Ystad y Goron yng Nghymru wedi ei ganoli yn San Steffan, ond eto yn yr Alban, mae'r rheolaeth wedi'i datganoli i Lywodraeth yr Alban ers 2017. Mae cefnogaeth gynyddol i Lywodraeth Cymru dderbyn yr un pwerau â'r Alban fel y gallwn elwa'n uniongyrchol o'r cyfleoedd economaidd a gyflwynir gan gynhyrchiad ynni adnewyddadwy posibl. Credwn y dylai'r Pwyllgor archwilio'r mater hwn, gyda golwg ar ddeall sut y gallai datganoli yn y maes hwn fod o gymorth i'n heconomi.

**Elw cwmnïau olew a nwy**

Rhyddhawyd elw ar gyfer y cwmnïau hyn yn ddiweddar, gydag adroddiadau yn y cyfryngau yn nodi bod cewri Olew yn gwneud elw o £5,000 yr eiliad tra bod miliynau yn parhau i gael trafferth gyda biliau ynni cynyddol. Mae dadansoddwyr yn rhagweld y bydd yr elw blynyddol wedi dyblu. Mae'r cwmni Chevron o'r Unol Daleithiau wedi cyhoeddi'r elw blynyddol mwyaf erioed o £28.6 biliwn, cynnydd mawr ar y £12.6 biliwn a wnaeth yn 2021. Bydd y toriadau treth enfawr ar olew a nwy a gyflwynodd y Prif Weinidog yn y dreth ar hap-safleoedd yn gweld y Trysorlys yn ildio yn y oddeutu £11 biliwn - mae hynny'n ddigon i roi codiad cyflog sy'n cyfateb i chwyddiant i bob gweithiwr ac athro GIG am flwyddyn. Mae angen i Lywodraeth y DU sefyll dros bobl gyffredin a thrwsio ein system ynni sydd, ar hyn o bryd, yn ein gorfodi i ddibynnu ar y cwmnïau hyn. Mae angen i'r Prif Weinidog gau'r bwlch yn y dreth ar hap-safleoedd, buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy a dyfir gartref a'n rhyddhau rhag olew a nwy.

Byddem yn croesawu unrhyw ddatganiad cyhoeddus neu gyfathrebu gan y Pwyllgor i Lywodraeth y DU, ac ystyriaeth bosibl o sesiwn sgriwtini gyda chwmnïau yn y maes hwn yn y dyfodol agos..

Byddem yn gofyn i'r Pwyllgor ddangos cefnogaeth i alwadau'r sector ynni cymunedol (CEW a CEE) i allu gwerthu pŵer yn lleol i'w cymuned fel y cynigir yn yr adroddiad Mesur Trydan Lleol. Gan eu bod yn seiliedig ar asedau, gallant weithredu os yw'r rheoliadau'n caniatáu, ond yn y DU, nid ydynt yn gwneud hynny. Mae'n digwydd yn Ewrop, fel y gwelwch yn yr erthygl hon.

**Crynodeb o gwestiynau allweddol y llythyr hwn**

a) Camau gweithredu gan y pwyllgor ar themâu allweddol Cynnes Gaeaf Yma-

- Cefnogaeth frys at aelwydydd bregus
- Rhaglen effeithlonrwydd ynni uchelgeisiol
- Cynnydd cyflym mewn ynni adnewyddadwy cost isel
- Rhyddid rhag tanwydd ffosil

b) Byddem yn annog y Pwyllgor i gadarnhau gyda ni bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru:

- Osod dyletswydd mewn deddfwriaeth i sicrhau Cymru Natur Bositif drwy brif ffrydio gweithredu dros fioamrywiaeth ar draws holl bortffolios Llywodraeth Cymru.
- Cyflwyno Bil Diogelu'r Amgylchedd i osod fframwaith ar gyfer targedau adfer natur sy'n gyfreithiol rwymol a chreu corff llywodraethu amgylcheddol annibynnol cryf i Gymru cyn gynted â phosibl.
- Cynyddu buddsoddiad cyhoeddus yn adferiad byd natur, gan sicrhau bod gwariant holl adrannau'r llywodraeth yn adlewyrchu'r nod Nature Positive, yn ogystal â harneisio buddsoddiad preifat ym myd natur wrth gefnogi cymunedau, trwy farchnadoedd a reolir yn glos.

c) Gwneud gwaith ar sut beth yw newid cyfiawn at Net Sero, a chreu adroddiad fel Pwyllgor ar y canfyddiadau.

ch) Byddem yn annog y Pwyllgor i barhau i wthio Llywodraeth Cymru ar waith sgriwtini Gweinidogol dros weithredu a monitro targedau ac addewidion Bioamrywiaeth, gan gofio mai cyfrifoldeb trawsadrannol yw hwn (nid yr Adran Newid Hinsawdd yn unig).

d) Byddem yn croesawu unrhyw ddatganiad cyhoeddus neu gyfathrebiad gan y Pwyllgor i Lywodraeth y DU ar dreth annisgwyl wirioneddol ar gwmnïau olew a nwy, ac ystyriaeth bosibl o sesiwn sgriwtini gyda chwmnïau yn y maes hwn.

dd) Gofynnwn i'r Pwyllgor ddangos cefnogaeth i alwadau'r sector ynni cymunedol (CEW a CEE) i allu gwerthu pŵer yn lleol i'w cymuned fel y cynigir yn yr adroddiad. Mesur Trydan Lleol.

e) gwaith ar ddatganoli Ystad y Goron,

Cofion cynnes

Bethan Sayed ar ran Tîm Climate Cymru